# Rheolau Tarddiad - Adroddiad Trosolwg Masnach mewn Nwyddau Diwydiannol o Gymru

## 1. RHEOLAU TARDDIAD - MASNACH MEWN NWYDDAU DIWYDIANNOL O GYMRU

**Cyflwyniad**

Rheolau tarddiad yw un o'r rhwystrau di-dariff allweddol i fasnach. Maent yn cael effaith sylweddol ar sut mae cwmnïau'n masnachu'n rhyngwladol. Os na chânt eu pennu ar y lefel gywir, maent mewn perygl o gyfyngu ar allu cwmnïau i fanteisio ar gytundebau masnach rydd (CMRau).

Gellir deall tarddiad fel cenedligrwydd economaidd y nwydd. Trafodir rheolau tarddiad fel rhan o CMRau i benderfynu a yw cynnyrch yn gymwys ar gyfer y tariff ffafriol (is) - dim ond nwyddau yr ystyrir eu bod wedi'u prosesu'n ddigonol neu sydd wedi'u sicrhau yn un neu fwy o'r partïon sy'n gymwys i gael tariffau is. Cyn mis Ionawr 2021, nid oedd angen rheolau tarddiad rhwng y DU a'r UE gan fod y DU yn aelod o Farchnad Sengl ac Undeb Tollau'r UE. O ganlyniad i'r DU a'r UE yn llofnodi'r Cytundeb Masnach a Chydweithrediad ("CMCh") ym mis Rhagfyr 2020, mae cyfres newydd o reolau tarddiad bellach yn berthnasol i'r fasnach rhwng y DU a'r UE.

Gall rheolau tarddiad sy'n rhy hyblyg arwain at drydydd gwlad yn elwa o'r cytundeb heb gyfrannu. Ar y llaw arall, gall rheolau tarddiad sy'n rhy llym gyfyngu ar allu cwmnïau i gydymffurfio a manteisio ar y cytundeb, yn ogystal â dod o hyd i rannau a chydrannau o'r tu allan i'r cytundeb. Gall fod yn anodd sicrhau cydbwysedd rhwng y ddau opsiwn yma.

Gall busnesau ddewis hawlio tariffau ffafriol ar gyfer y nwyddau maent yn eu mewnforio ai peidio. Ar gyfer rhai nwyddau, gall cyfraddau tariff fod yn isel neu'n sero, hyd yn oed yn absenoldeb CMR. Fodd bynnag, os yw'r tariffau'n sylweddol, yr unig opsiwn i'w hosgoi yw mewnforio nwyddau sy'n bodloni'r rheolau tarddiad.

Comisiynwyd yr ymchwil hon gan Lywodraeth Cymru i ddarparu gwybodaeth a thystiolaeth am ofynion rheolau tarddiad ar gyfer nwyddau diwydiannol allweddol, ac i helpu i ddeall sut gellid rhoi sylw o bosibl i heriau sy'n gysylltiedig â darpariaethau tarddiad drwy bolisi masnach Cymru. Mae hyn yn arbennig o berthnasol yng nghyd-destun trafodaethau masnach parhaus y DU.

## 2. DULL A METHODOLEG YR YMCHWIL

Cynhaliwyd yr ymchwil rhwng mis Ionawr 2021 a mis Ebrill 2021 ac roedd yn cynnwys tri prif gam:

- Dadansoddiad o brif ddata masnach a data masnach eilaidd i helpu i nodi'r diwydiannau allforio allweddol a'r marchnadoedd cyrchfan sy'n bwysig i Gymru;
- Ymgysylltu uniongyrchol a chyfweliadau ag allforwyr o Gymru yn y diwydiannau allforio allweddol, yn ogystal â chyrff masnach ac allforio; ac

- Adolygiad a dadansoddiad o ddarpariaethau rheolau tarddiad cyfredol, yn enwedig o CMRau diweddaraf y DU, i bennu eu heffaith debygol ar allforwyr o Gymru, gan gynnwys edrych ar ardystiad a gofynion rheolau tarddiad penodol i gynnyrch ar gyfer y diwydiannau allforio allweddol.

Cynhaliwyd cyfanswm o 20 o gyfweliadau ag allforwyr / cyrff masnach ac allforio o Gymru o gyfanswm o 45 o wahoddiadau a gyflwynwyd. Gofynnwyd i'r cwmnïau a gyfwelwyd am eu profiadau o fasnachu o dan ddewis. Roedd hyn yn cynnwys cytundebau masnach yr UE a'u fersiynau trosglwyddo yn y DU yn ogystal â chytundeb masnach newydd y DU-UE.

**Diwydiannau Allforio Allweddol a Marchnadoedd Cyrchfan**

Profodd masnach Cymru ddirywiad yn 2020 a achoswyd gan y pandemig byd-eang. Roedd allforion nwyddau o Gymru oddeutu £13.4 biliwn yn y flwyddyn a daeth i ben ym mis Rhagfyr 2020[1]. Mae hyn yn cynrychioli dirywiad o £4.3 biliwn (24.4%) o gymharu â'r flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2019.

Yn 2020, roedd peiriannau ac offer trafnidiaeth, nwyddau wedi'u gweithgynhyrchu, a chemegau a chynhyrchion cysylltiedig yn cyfrif am 75% o gyfanswm allforion nwyddau Cymru (gyda'r categori peiriannau a thrafnidiaeth ynddo'i hun yn cynrychioli 46%)[2]. Yn wir, ynghyd â Mwynau, Tanwyddau ac Ireidiau, maent wedi cynrychioli'r diwydiannau allforio uchaf yn gyson am y 5 mlynedd diwethaf (diwydiannau a ddisgrifir ar lefel diwydiant SITC 1)[3].

[1] Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o ddata masnachu mewn nwyddau CThEM, allforion Cymru: 2020, ar gael: https://gov.wales/welsh-exports-2020

[2] Tabl data masnach rhanbarthol, ar gael yma: https://www.uktradeinfo.com/trade-data/rts-custom-table/

[3] Ystadegau Llywodraeth Cymru, allforion Cymru: 2020, ar gael: https://gov.wales/welsh-exports-2020

*Ffigur 2: Diwydiannau allforio allweddol Cymru 2016-2020*[4]

| | Sector (SITC 1) | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Peiriannau ac Offer Trafnidiaeth | Cemegau a Chynhyrchion Cysylltiedig | Nwyddau Wedi'u Gweithgynhyrchu | Mwynau, Tanwyddau, Ireidiau ac ati |
| **2020** | £6.20bn | £2.00bn | £1.90bn | £1.40bn |
| **2019** | £8.85bn | £2.05bn | £2.11bn | £2.46bn |
| **2018** | £8.52bn | £1.95bn | £2.16bn | £2.31bn |
| **2017** | £8.74bn | £1.94bn | £2.04bn | £1.94bn |
| **2016** | £7.92bn | £1.70bn | £1.77bn | £1.33bn |

*Ffynhonnell: Ystadegau allforio CThEM*

Roedd gwerth allforion gan gwmnïau sy'n cyflogi 250 o bobl neu fwy, ac yn allforio cynhyrchion lluosog i sawl marchnad, yn 80% o gyfanswm allforion Cymru yn 2019[5]. Mae hyn yn dangos bod allforion Cymru'n cael eu rheoli gan nifer fach o gwmnïau mawr sy'n allforio swm sylweddol o nwyddau o ran gwerth, a nifer fawr o gwmnïau bach sy'n allforio ychydig o gynhyrchion amrywiol iawn. Yn wir, datganodd 23.4% o allforwyr o Gymru eu bod yn allforio un cynnyrch yn unig. Roedd y cwmnïau hyn yn cyfrif am 8.1% o gyfanswm y gyflogaeth yng Nghymru. Ar yr un pryd, dim ond 0.6% o fusnesau Cymru a ddatganodd eu bod yn allforio mwy na 30 o gynhyrchion. Roedd y cwmnïau hyn yn cyfrif am 0.6% o gyfanswm y gyflogaeth yng Nghymru. Ar ben hynny, yn ôl yr un adroddiad, mae mwy na 50% o gwmnïau Cymru'n allforio pump neu lai o gynhyrchion (sy'n cynrychioli ychydig o dan 20% o gyflogaeth).

Mae cwmnïau sy'n allforio un neu ddim ond ychydig o gynhyrchion yn llawer mwy agored i unrhyw newidiadau a phatrymau newydd o ran mantais gystadleuol. Mae CMRau newydd yn effeithio ar y fantais hon gan ddibynnu ar a yw cwmnïau'n gallu bodloni rheolau tarddiad ai peidio. Ar yr un pryd, yn aml nid oes gan gwmnïau / mentrau bach a chanolig (BBaCh) allu i amsugno costau ychwanegol. O ganlyniad, maent yn aml yn fwy dibynnol ar eu cynhyrchion yn bodloni rheolau tarddiad, oherwydd gallai tariffau ychwanegol ddileu maint yr elw. At hynny, gan fod gan BBaCh lai o adnoddau, efallai y

[4] Ibidem, mae ffigurau 2020 yn debygol o adlewyrchu effeithiau Covid-19 ar allforion.

[5] Patrymau masnach Cymru yn ôl cyrchfan, cynnyrch a nodweddion busnes: 2019, 2020, ar gael yma: [Patterns of Welsh trade by destination, product and business characteristics - Office for National Statistics (ons.gov.uk)]

bydd yn fwy heriol iddynt ddeall a chydymffurfio â gofynion tarddiad. Mae diffyg ymwybyddiaeth o ofynion rheolau tarddiad a diffyg arweiniad a chefnogaeth ddigonol yn effeithio'n anghymesur ar gwmnïau llai.

Mae pwysigrwydd rheolau tarddiad i allforwyr o Gymru yn cael ei ddangos ymhellach gan y gyfran uchel o gyfanswm y cynhyrchion sy'n cael eu hallforio o Gymru i ddim ond tair gwlad, a'r ddibyniaeth ar farchnad yr UE.

Roedd allforion Cymru i'r Almaen, Ffrainc ac UDA gyda'i gilydd yn cynrychioli 47% o gyfanswm gwerth allforion mewn nwyddau yn 2019[6] a 43% yn 2020[7]. Mae hyn yn cynrychioli marchnad allforio hynod ddwys. At hynny, mae mwy na 50% o allforwyr o Gymru yn anfon nwyddau i 5 marchnad neu lai (sy'n cynrychioli ychydig llai na 29% o gyflogaeth) a datganodd 25.8% o fusnesau Cymru allforion i un wlad yn unig[8].

Mae allforion Cymru hefyd yn dddibynnol ar farchnad yr UE. Roedd 58% o allforion nwyddau Cymru yn 2020 ar gyfer marchnad yr UE[9]. Yn y DU, mae masnach Cymru gyda’r UE yn ail yn unig i Ogledd Iwerddon, sydd â threfniant masnachu ar wahân gyda’r UE o dan Brotocol Gogledd Iwerddon.

---


[6] Patrymau masnach Cymru yn ôl cyrchfan, cynnyrch a nodweddion busnes: 2019, 2020, ar gael yma: https://www.ons.gov.uk/businessindustryandtrade/internationaltrade/articles/patternsofwelshtradebydestinationproductandbusinesscharacteristics/2019

[7] Tabl data masnach rhanbarthol, ar gael yma: https://www.uktradeinfo.com/trade-data/rts-custom-table/

[8] Ibidem

[9] Ibidem

*Ffigur - Cyrchfannau allforion fel % o gyfanswm yr allforion, Cymru, 2020* [10]




Roedd diffyg argaeledd data masnach sy'n cynnwys mewnforion ac allforion o Gymru ar lefel cod nwyddau yn cyfyngu'r cwmpas ar gyfer dadansoddiad meintiol. Roedd hyn yn golygu bod y prosiect yn dibynnu'n helaeth ar y data masnach hynod gyfanredol sydd ar gael i Gymru, ochr yn ochr â gwybodaeth ansoddol gan gynrychiolwyr y diwydiant. Byddai mynediad at ddata masnach manylach ar gyfer Cymru wedi hwyluso dadansoddiad dyfnach ac ystyrlon o lif masnach.

## 3. CANFYDDIADAU ALLWEDDOL

### DIFFYG YMWYBYDDIAETH O REOLAU TARDDIAD, MATERION TOLLAU A CHYFLEOEDD MASNACH

- **Lefel isel o ymwybyddiaeth â materion ffurfiol tollau.** Fel cwmnïau mewn rhannau eraill o'r DU, mae allforwyr o Gymru'n tueddu i ddibynnu ar froceriaid tollau i gyflawni eu materion ffurfiol yn gysylltiedig â thollau. Gan fod cwmnïau'n gyfreithiol gyfrifol ac yn atebol am fanwl gywirdeb yr wybodaeth a gyflwynir ar eu rhan gan froceriaid tollau, mae angen iddynt fod yn ymwybodol o'u rhwymedigaethau.

- **Mae'n anodd deall gofynion tarddiad a gall cwmnïau fod â lefel isel o ymwybyddiaeth o ofynion tarddiad.** Canfuwyd mai cwmnïau sydd naill ai heb fasnachu o dan ddewis o'r blaen

[10] Ibidem

(gan eu bod wedi masnachu fel rhan o Farchnad Sengl yr UE erioed), neu sydd wedi masnachu o dan ddewis ond wedi dibynnu ar froceriaid i gwblhau'r broses darddiad heb eu hymgysylltiad hwy, oedd fwyaf tebygol o berthyn i’r categori hwn. Efallai y bydd angen cyngor a chefnogaeth ychwanegol ar y cwmnïau hyn ar sut i fodloni gofynion tarddiad wrth symud ymlaen i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â rhwymedigaethau masnachu newydd (a sut i ddangos tystiolaeth a chwblhau tystysgrifau datgan tarddiad). Mae hyn yn arbennig o bwysig oherwydd gall cwmnïau sy'n cyflwyno tystysgrifau anghywir gael cosbau a dirwyon gan yr awdurdodau dan sylw.

- **Mae cwmnïau'n ansicr ynghylch a ydynt yn gymwys i darddiad / tariffau ffafriol.** Oherwydd diffyg dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth, roedd rhai cwmnïau'n aneglur ynghylch a oeddent bellach yn gymwys i darddiad ffafriol yn eu masnach gyda'r UE, neu a oedd eu cwsmeriaid yn hawlio tarddiad ffafriol mewn gwledydd y tu allan i'r UE y mae'r cwmnïau hyn wedi bod yn masnachu â hwy ers blynyddoedd lawer cyn Brexit. Gall hyn awgrymu lefel isel o ymwybyddiaeth a ddarperir gan CMRau.

- **Mae BBaCh yn llai tebygol o fod yn gyfarwydd â gofynion tarddiad neu fod ag adnoddau digonol i ddelio â'r cymhlethdodau ychwanegol.** Mae'r holl faterion uchod yn effeithio'n anghymesur ar BBaCh. Mae BBaCh yn tueddu i ddibynnu'n benodol ar drydydd partïon fel broceriaid tollau wrth ddelio â gofynion tarddiad gan nad oes ganddynt yr arbenigedd na'r adnoddau eu hunain. Mae cwmnïau mwy sydd ag arbenigwyr mewnol, neu'r rhai sy'n rhan o strwythur corfforaethol ehangach, rhyngwladol yn aml, yn tueddu i fod â gwell dealltwriaeth o reolau tarddiad. Fodd bynnag, canfu cwmnïau o'r fath hyd yn oed nad oedd yr amser yr oedd gan eu cyflogeion i ymgyfarwyddo â'r gofynion tarddiad yn ddigonol.

Mae tarddiad yn faes cymhleth ac nid yw'r canllawiau sydd ar gael bob amser yn gynhwysfawr nac yn glir i gwmnïau heb ddealltwriaeth flaenorol o dollau. Yn ogystal, mae rhai o'r elfennau wedi’u symleiddio sydd wedi’u cyflwyno o dan y CMCh wedi arwain at gwmnïau'n credu'n anghywir nad oes angen iddynt ddarparu prawf o darddiad.

## DEFNYDDIO AC YMWYBYDDIAETH O GYTUNDEBAU / DEWISIADAU MASNACH

- **Perthnasedd gofynion tarddiad.** Mae llawer o gynhyrchion Cymru yn y diwydiannau allforio uchaf yn destun tariffau isel iawn neu sero o ganlyniad i lacio tariffau amlochrog neu o dan gytundebau sectoraidd Sefydliad Masnach y Byd (e.e. ar gynhyrchion fferyllol, offer TGCh neu hedfanaeth). Os yw'r tariffau'n sero, gallai cwmnïau benderfynu peidio â defnyddio CMR hyd yn oed os oes un ar waith. Pan fydd tariffau'n isel, gall cwmnïau hefyd benderfynu talu tariffau llawn, oherwydd gall pennu a phrofi tarddiad ffafriol ofyn am lawer iawn o adnoddau, ac o bosibl fod yn ddrytach na thalu'r tariffau.

- **Cytundeb Masnach a Chydweithrediad y DU-UE.** Mae'n debyg y bydd marchnad yr UE yn parhau i fod yn gyrchfan fasnach sylweddol i Gymru. Dywedodd llawer o'r cwmnïau a gyfwelwyd eu bod yn allforio i'r UE, a fydd yn parhau i fod yn gyrchfan bwysig iddynt. Felly, y CMCh yn fwyaf tebygol fydd y cytundeb masnach a ddefnyddir gan fwyafrif allforwyr Cymru wrth symud ymlaen, yn enwedig ar gyfer y diwydiannau hynny sydd â thariffau uchel.

- **Cytundebau Parhad.** Nododd cwmnïau a gyfwelwyd bwysigrwydd cytundebau parhad y DU ar gyfer eu masnach, yn enwedig y rhai gyda Canada, Mecsico, y Swistir a Siapan.

- **Cytundebau yn y Dyfodol.** Ar hyn o bryd mae'r DU yn trefnu nifer o CMRau: mae hyn yn cynnwys cytundeb posibl gydag Awstralia[11], Seland Newydd, yr UD a'r Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel ("CCBPMT"). Mae cytundebau gyda phartneriaid masnachu eraill yn cael eu hystyried hefyd (e.e. India). Dim ond ychydig o gwmnïau a nododd ddiddordeb yn unrhyw un o'r cytundebau hyn. Cyfeiriwyd at yr UD ac Awstralia fel y rhai mwyaf buddiol o bosibl o'r rhai sy'n cael eu trafod ar hyn o bryd. Fodd bynnag, soniodd cwmnïau am ystod o rwystrau di-dariff yr oeddent yn credu oedd yn eu hatal rhag cynyddu eu lefelau isel o werthiant i'r marchnadoedd hyn. Roedd diddordeb mewn ymuno â'r CCBPMT yn dibynnu ar gadwyni cyflenwi cwmnïau, gan fod llawer o gwmnïau eisoes yn elwa o gytundebau dwyochrog gydag aelodau CCBPMT. Byddai buddion ymuno â grwpio rhanbarthol o ddiddordeb i gwmnïau sydd â chadwyni cyflenwi sy'n addas ar gyfer defnyddio cyfuno rhanbarthol.

## PWYSIGRWYDD CYFUNO

- **Diffyg cyfuno trydydd parti.** Gwelir bod diffyg cyfuno trydydd parti yn cael effaith niweidiol ar allforwyr o Gymru, yn enwedig y rhai oedd yn dibynnu ar gytundebau masnach yr UE cyn diwedd y Cyfnod Pontio. Mae diffyg trefniant cyfuno trydydd parti yn y CMCh yn golygu na ellir cyfrif nwyddau o'r gwledydd y mae gan y DU a'r UE gytundeb masnach â hwy, a broseswyd yng Nghymru, tuag at gynnwys tarddiad wrth eu hallforio i'r UE. Mae'r diffyg cyfuno trydydd parti yng nghytundebau masnach yr UE yn golygu na all mewnbynnau na phrosesu Cymru gyfrif tuag at gynnwys tarddiad pan fydd nwyddau'n cael eu hallforio o'r UE i drydydd gwledydd, hyd yn oed pan fydd gan y DU a'r UE CMR gyda'r wlad honno.

  Mae hyn hefyd yn wir am nwyddau sy'n dod o wledydd sy'n datblygu a'r gwledydd lleiaf datblygedig. Mae gan yr UE system arbennig o ddewisiadau unochrog ar gyfer gwledydd sy'n datblygu a gwledydd lleiaf datblygedig o'r enw'r Cynllun Dewis Cyffredinol ("CDC") sy'n

[11] Nid oedd Cytundeb mewn Egwyddor wedi'i lunio'n derfynol gydag Awstralia adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn.

darparu mynediad di-dariff i farchnad yr UE i'r gwledydd hyn. Mae'r CDC yn cynnwys rheolau tarddiad a darpariaethau tarddiad penodol sy'n fwy hyblyg na'r rhai o dan y mwyafrif o gytundebau masnach. Er bod y DU wedi efelychu CDC yr UE a chyflwyno cyfuno estynedig i ganiatáu i wledydd CDC ddefnyddio mewnbynnau'r UE at ddibenion allforion i'r DU, nid yw'r UE wedi cyflwyno mesur tebyg sy'n golygu nad yw'r gwrthwyneb yn bosibl, ac ni all gwledydd CDC ddefnyddio mewnbynnau'r DU yn eu hallforion i'r UE.

- **Dim mynediad i gonfensiwn PEM ar gyfer cwmnïau o Gymru.** Nid yw'r DU bellach yn rhan o'r system o gyfuno rhanbarthol o'r enw confensiwn Pan-Euro-Med (PEM). Ar hyn o bryd mae confensiwn PEM yn cynnwys yr UE, Gwladwriaethau EFTA (y Swistir, Norwy, Gwlad yr Iâ a Liechtenstein), Albania, Algeria, Bosnia a Herzegovina, yr Aifft, Ynysoedd Faroe, Israel, Gwlad yr Iorddonen, Kosovo, Lebanon, Gweriniaeth Gogledd Macedonia, Montenegro, Moroco, Talaith Palestina, Serbia, Syria, Tiwnisia a Thwrci (ac yn rhannol Andorra a San Marino). Mae Confensiwn PEM yn caniatáu cyfuno deunyddiau tarddiad i gyfrif fel rhai sy'n tarddu rhwng aelodau. Roedd y system ranbarthol hon o gyfuno'n arbennig o bwysig i nifer o ddiwydiannau Cymru (a'r DU) fel tecstilau a moduron, er ei bod hefyd yn cael ei defnyddio gan gwmnïau mewn diwydiannau eraill. Mae confensiwn PEM yn seiliedig ar gytundebau masnach lle mae rheolau tarddiad union yr un fath yn bodoli rhwng yr aelodau. Mae colli cyfuno rhanbarthol yn effeithio ar unrhyw gwmni a elwodd o'r system PEM.

## HUNANARDYSTIO

- **Anghyfarwydd â gofyniad tarddiad hunanardystio.** Hunanardystio yw'r math mwyaf cyffredin o ardystio tarddiad mewn CMRau diweddar. Er bod rhai buddion i ardystio gan drydydd parti, mae busnesau mewn sawl rhanbarth wedi lleisio eu barn am ffafrio hunanardystio gan fod ardystiad trydydd parti'n arwain at ystyried amser a chost ychwanegol cyn gellir allforio nwyddau. Canfu'r ymchwil fod cwmnïau'n cael anawsterau o ran ardystio tarddiad o dan y CMCh, yn ogystal â rhai o'r cytundebau parhad. Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd y materion hyn yn ymwneud â'r newid neu'r gwahaniaethau yn fformat datganiad tarddiad. Yn flaenorol roedd datganiadau o'r DU yn cynnwys allforiwr cymeradwy neu rif Allforiwr Cofrestredig ("REX")[12], ond nawr dim ond cyfeirio at rif Cofrestru ac Adnabod Gweithredwyr Economaidd ("EORI")[13] y cwmni sydd angen i ddatganiadau. Fodd bynnag,

[12] Mae'r rhaglen Allforiwr Cofrestredig (REX) yn fersiwn o gofrestriad allforiwr cymeradwy sydd wedi'i gyflwyno gan yr UE o dan gytundebau penodol. Wedi'i gyflwyno i ddechrau ar gyfer gwledydd sy'n datblygu a gwledydd lleiaf datblygedig daeth yn ofyniad o dan gytundebau masnach eraill hefyd. Er enghraifft, i allforio o dan gytundeb masnach yr UE-Canada, roedd rhaid i allforwyr yr UE gofrestru ar gyfer y cynllun REX. Roedd hynny hefyd yn cynnwys allforwyr o'r DU a oedd eisoes wedi'u cofrestru gyda fersiwn y DU o'r allforiwr cymeradwy.

[13] Yr EORI yw'r prif rif adnabod ym mhob gohebiaeth ag awdurdodau tollau'r UE. Mae angen y rhif er mwyn cyflwyno datganiadau, gwneud cais am awdurdodiad ac ati.

cafodd y mater hwn ei ddatrys yn gyflym gan gwmnïau wedi i'r cwmnïau neu'r swyddogion tollau lleol ddod yn ymwybodol o'r newid.

## DATGANIADAU CYFLENWYR, ALLFORION ANUNIONGYRCHOL AC YMWYBYDDIAETH O OFYNION TARDDIAD YMHELLACH I LAWR Y GADWYN CYFLENWI

- **Dryswch ynghylch yr angen am gael datganiadau cyflenwyr.** Un o'r elfennau symleiddio a gyflwynwyd o dan y CMCh oedd gohirio'r rhwymedigaeth i fod â datganiad cyflenwr[14] ar adeg mewnforio neu allforio. Dim ond tan ddiwedd 2021 mae'r symleiddio hwn wedi'i gyflwyno[15]. Fodd bynnag, nid yw hyn yn newid y gofyniad i'r allforiwr a'r mewnforiwr fod yn hyderus bod y nwyddau'n bodloni'r rheolau tarddiad. Mae'n ymddangos bod y symleiddio hwn yn achosi rhywfaint o ddryswch gan fod cwmnïau'n credu ei fod yn golygu nad yw'n ofynnol iddynt wirio tarddiad y nwyddau a brynwyd, ac mewn rhai achosion hyd yn oed nad yw'n ofynnol iddynt ddarparu tystysgrif tarddiad. Os nad yw'r mewnforwyr a'r allforwyr yn ymwybodol o ofynion tarddiad, mae'n debygol na fydd cwmnïau sy'n eu cyflenwi, nad ydynt o reidrwydd yn mewnforio neu'n allforio eu hunain, yn deall ystyr "tarddu". Canfu'r ymchwil fod ymwybyddiaeth o ofynion tarddiad a thollau, yn gyffredinol, yn aml yn llawer llai ymhellach i lawr y gadwyn gyflenwi, ac mae angen cefnogaeth ar gyflenwyr i ateb cwestiynau sy'n gysylltiedig â tharddiad ynghylch eu cynhyrchion.

- **Yr angen am i allforwyr anuniongyrchol fod yn ymwybodol o faterion tarddiad.** Yn ogystal â chwmnïau'n gorfod dibynnu ar eu cyflenwyr i ddarparu gwybodaeth am darddiad fel yr amlinellwyd yn flaenorol, bydd y gofyniad tarddiad newydd yn effeithio ar lawer o gwmnïau o Gymru o ganlyniad i'r ffaith eu bod yn allforwyr anuniongyrchol. Mae allforion anuniongyrchol yn digwydd pan fydd cwmnïau'n cyflenwi rhannau neu hyd yn oed nwyddau gorffenedig i gwmni arall yn y DU, sydd wedyn yn allforio'r cynnyrch terfynol. Mae hyn yn arbennig o bwysig pan fydd y tarddiad yn cael ei bennu ar sail gwerth cydrannau gwreiddiol (maen prawf gwerth ychwanegol). Gan fod cymaint o gynhyrchion Cymru'n cael eu gwerthu fel rhannau a chydrannau cynhyrchion sy'n cael eu hallforio o'r DU yn y pen draw, bydd y rheolau tarddiad o dan y CMCh yn effeithio arnynt hwy hefyd. Dim ond ar ôl i'r cyfnod symleiddio datganiadau cyflenwyr ddod i ben y daw effaith lawn hyn yn hysbys.

## GOFYNION PROSESU LLEIAF POSIBL GAN GYNNWYS AR GYFER NWYDDAU SY'N TARDDU O'R UE

---

[14] Mae datganiad cyflenwyr yn ddogfen y mae gweithgynhyrchwr domestig yn ei darparu i'r allforiwr i gadarnhau bod ei gynhyrchion yn bodloni'r rheol darddiad berthnasol. O'r herwydd, nid yw'n ffurflen dollau, ond yn ddogfen sy'n cefnogi'r hawliad am darddiad.

[15] Hawlio cyfraddau ffafriol o dollau rhwng y DU a'r UE, 2021, canllawiau CThEM, ar gael yma: https://www.gov.uk/guidance/claiming-preferential-rates-of-duty-between-the-uk-and-eu

- **Effaith gofynion prosesu lleiaf posibl ar gwmnïau.** Mae gweithrediadau lleiaf posibl yn rhestr o brosesau y bernir nad ydynt yn ddigonol i roi tarddiad ffafriol. O ganlyniad, ni fydd unrhyw nwyddau sydd wedi'u mewnforio i wlad ac sy'n destun y gweithrediadau lleiaf posibl hyn yn unig yn cael eu hystyried yn tarddu pan gânt eu hallforio i'r parti arall. Gall gweithrediadau lleiaf posibl gael effaith ddwys ar gadwyni cyflenwi ac effeithio ar gwmnïau ar draws pob sector. Sefydlwyd llawer o fusnesau i fewnforio cynhyrchion i'r DU a'u dosbarthu ar draws marchnadoedd y DU a'r UE. Mae'r busnesau dosbarthu hyn bellach yn wynebu gweithdrefnau tariff dwbl a thollau dwbl o ganlyniad i Brexit. Mae hyn hefyd yn effeithio ar gwmnïau o Gymru sy'n ail ddosbarthu rhai o'r cynhyrchion a fewnforiwyd o'r UE yn flaenorol. Y senario amlaf yw nwyddau a fewnforir o'r UE (tir mawr) ac a ail allforir i Weriniaeth Iwerddon neu Ogledd Iwerddon (os ystyrir bod risg yn gysylltiedig â'r nwyddau hyn). Mae nwyddau o'r fath bellach yn destun tariffau wrth fynd i mewn i Iwerddon, hyd yn oed os ydynt wedi cael eu mewnforio i'r DU o dan dariffau ffafriol. Er bod y DU ac Aelod-wladwriaethau'r UE wedi awgrymu gwahanol ddulliau o weithredu gyda hyn, er enghraifft, y Rhyddhad Nwyddau a Ddychwelir[16], nid ydynt yn cynnig ateb llawn.

---

## CYFUNO PROSESU A DEWIS

- **Ni fydd unrhyw gyfyngiadau ar hawlio tollau'n ôl yn fuddiol i CMRau.** Mae hawlio tollau'n ôl yn caniatáu i fusnesau hawlio'n ôl dollau a dalwyd eisoes ar ddeunyddiau nad ydynt yn tarddu a ddefnyddir i gynhyrchu nwydd sydd wedyn yn cael ei ailallforio. Mae un o'r dulliau hawlio tollau'n ôl mwyaf cyffredin yn ymwneud â rhyddhad prosesu mewnol. Mae prosesu mewnol yn rhyddhad tollau sy'n caniatáu mewnforio nwyddau o drydedd wlad gan atal tollau a TAW mewnforio. Os bydd y nwyddau, ar ôl eu prosesu, yn cael eu hailallforio i'r un wlad neu drydedd wlad arall, ni fydd tollau a TAW mewnforio yn ddyledus byth. Os yw'r nwyddau'n aros yn y wlad ac yn cael eu gwerthu ar y farchnad leol, mae angen datgan y nwyddau i'r adran dollau a bydd tollau a TAW mewnforio yn dod yn ddyledus. Yn yr achos hwn, byddai gwahardd neu gyfyngu ar hawlio'n ôl o dan unrhyw CMR yn golygu na all nwyddau a fewnforir ar gyfer prosesu mewnol elwa o statws ffafriol adeg eu hallforio i'r partner cytundeb masnach. Mae llawer o CMRau yn cynnwys gwahardd hawlio tollau'n ôl ac, o ganlyniad, ni ellir cyfuno prosesu mewnol â tharddiad ffafriol. Fodd bynnag, o dan y CMCh, gellir defnyddio'r ddau hyn gyda'i gilydd i ganiatáu mewnforio cynnyrch o dan brosesu mewnol gyda thollau a TAW mewnforio yn cael eu hatal. Pan fydd y cynnyrch yn cael ei brosesu wedyn i'r pwynt lle mae'n bodloni'r

---

[16] Mae'r Rhyddhad Nwyddau a Ddychwelir yn caniatáu i fasnachwr anfon nwyddau heb eu newid yn ôl i'r UE heb dalu tollau. Mae TAW Mewnforio yn cael ei hildio hefyd ar yr amod bod y nwyddau'n cael eu hailfewnforio gan yr un cwmni ag a'u hallforiodd yn y lle cyntaf. Er mwyn defnyddio'r Rhyddhad, byddai'r mewnforiwr fel rheol yn gofyn am y datganiad allforio gwreiddiol a byddai angen llenwi ffurflen ychwanegol.

rheolau tarddiad o dan y CMCh a'i allforio i'r UE, nid yw'r tollau na'r TAW mewnforio yn ddyledus. Mae caniatáu i allforwyr o Gymru a'r DU ddefnyddio prosesu a ffafriaeth yn darparu hyblygrwydd ychwanegol a dylid ei geisio o dan CMRau eraill.

## 4. CASGLIADAU

Gall fod nifer o resymau pam mae cwmnïau'n dewis peidio â defnyddio tariffau ffafriol. Er enghraifft, efallai nad yw eu cynhyrchion yn cwrdd â rheolau tarddiad oherwydd eu cadwyni cyflenwi a'u modelau busnes. Fodd bynnag, mae'n gyffredin hefyd gweld cwmnïau'n masnachu o dan dariffau llawn oherwydd diffyg ymwybyddiaeth a lefel isel o ddealltwriaeth o reolau tarddiad. Ar y llaw arall, gellir gwrthod hawliadau tarddiad ffafriol adeg eu mewnforio. Gellir datgelu diffyg cydymffurfio â gofynion tarddiad hefyd yn ystod gwiriadau ac archwiliadau ôl-fewnforio. Er enghraifft, pan fydd cwmnïau'n darparu prawf o darddiad ffafriol heb allu ei ategu.

Mae hyn yn arbennig o berthnasol i gwmnïau sydd â phrofiad cyfyngedig o fasnach ryngwladol ac sydd ond wedi dechrau allforio ym mis Ionawr 2021, oherwydd y ffin dollau a rheoleiddiol newydd gyda'r UE. Bydd yn ofynnol i'r cwmnïau hyn ddeall gweithdrefnau sy'n gysylltiedig â tharddiad a thollau yn gyflym iawn er mwyn cadw eu cleientiaid. Er bod y problemau hyn yn effeithio ar bob rhanbarth o'r DU, gallent fod yn arbennig o berthnasol i Gymru o ystyried pwysigrwydd allforion a marchnad yr UE i economi Cymru.

Gellir gweld problemau tebyg ymhellach i lawr y gadwyn gyflenwi. Mae cyfran sylweddol o fusnesau Cymru’n allforwyr anuniongyrchol - maent yn gwerthu cynhyrchion i gleientiaid sydd wedi'u lleoli mewn rhannau eraill o'r DU i'w defnyddio fel rhannau neu gydrannau mewn cynhyrchion sydd wedyn yn cael eu hallforio i'r UE. Mae’n bwysig bod cwmnïau o’r fath hefyd yn deall rheolau tarddiad oherwydd gellir gofyn iddynt ddarparu datganiad cyflenwyr.

Byddai arweiniad a chefnogaeth ychwanegol i gwmnïau o Gymru, yn enwedig i BBaCh, yn ddefnyddiol. Gall tollau a rheolau tarddiad yn benodol fod yn faes brawychus i fusnesau nad oes ganddynt brofiad blaenorol o fasnachu yn rhyngwladol. Er mwyn cynyddu'r defnydd o gytundebau masnach, mae angen cefnogaeth ychwanegol ar gyfer BBaCh. Yn aml nid oes gan BBaCh ddealltwriaeth fanwl o drefniadau tollau, sy'n cynnwys rheolau tarddiad, ac felly ni allant fanteisio ar y cyfleoedd sydd ar gael iddynt. Yn yr un modd, mae angen i gwmnïau hefyd ddeall eu cyfrifoldebau a'u rhwymedigaethau o ran tarddiad a thollau er mwyn osgoi archwiliadau a chosbau. Mae hyn yn golygu deall nid yn unig sut i ddarparu datganiad tarddiad, ond hefyd sut i wirio a yw'r cynnyrch yn cwrdd â'r rheolau, a chasglu a chadw'r holl ddogfennau ategol fel y'u diffinnir gan delerau'r CMRau.

Gall cefnogi cwmnïau drwy ddarparu hyfforddiant ac arweiniad chwarae rhan bwysig. Yr elfen allweddol fyddai sicrhau bod hyfforddiant ac arweiniad o'r fath yn cael eu darparu gan bobl neu sefydliadau sydd â phrofiad digonol ac ymarferol o allforio, ac ymdrin â thollau a rheolau tarddiad.

Nododd yr ymchwil rai darpariaethau sy'n darparu hyblygrwydd ychwanegol i allforwyr o Gymru. Dylid cynnwys darpariaethau fel cyfuno trydydd parti neu ganiatáu defnyddio hawlio tollau'n ôl ynghyd â tharddiad ffafriol mewn darpar CMRau os yw hynny'n bosibl. Trafododd yr ymchwil hefyd y buddion a'r risgiau sy'n gysylltiedig â hunan ardystio. Byddai cynyddu ymwybyddiaeth a gwybodaeth am weithdrefnau tarddiad yn helpu i ddileu risg yn y maes hwn hefyd.

Mae llawer o gwmnïau wedi cael eu heffeithio gan fod cynhyrchion sy'n tarddu o'r UE yn destun tariffau llawn pan gânt eu dychwelyd i'r UE. Byddai elfennau symleiddio ar gyfer nwyddau a ddychwelir, ail allforion a dychwelyd nwyddau i'w hatgyweirio mewn darpar CMRau yn ddefnyddiol.

Nodwyd materion a dibyniaethau penodol mewn perthynas â rheolau tarddiad penodol i gynnyrch mewn rhai sectorau. Byddai mynediad at ddata masnach manylach, ochr yn ochr ag ymchwil bellach ac ymgysylltu â rhanddeiliaid, yn galluogi Llywodraeth Cymru i nodi materion pellach yn ymwneud â rheolau tarddiad penodol i gynnyrch ac yn darparu mewnbwn gwerthfawr i sgyrsiau masnach y DU.